

Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
2 Mehefin 2016 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Dafydd Iwan, Ifor Dylan Williams, Gwyneth Thomas, Edd Huws, Geraint R. Jones
Cadeirio: Erddyn Davies
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. YMDDIHEURIADAU

Ian Jones, Emyr Williams

2. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cadeirydd Erddyn Davies ddiddordeb yn Eitem 8.4 - defnydd o gae Pêl droed Bontnewydd Pêl droed Bontnewydd. Cytunwyd nad oedd y diddordeb yn un oedd yn rhagfarnu.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd. Cynnig: Dafydd Iwan Eilio: Ifor Dylan Williams

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 Parcio Siop McColl's

Mae'r Asiantaeth Priffyrdd wedi lleihau effaith swm y sribedi coch, ac mae arwydd wedi ei osod ar ochr yr A487 yn nodi troad Rhos Malters wrth agosau at y tro cyn y siop, wrth deithio o gyfeiriad Dinas.

4.2 Ffordd osgoi Bontnewydd

Danfonodd y Clerc lythyr a ddrafftwyd gan y cynghorydd Dafydd Iwan yn nodi newid posibl i lwybr y ffordd osgoi ger Lon Pen y Bryn a Rhos Bach, ac yn gofyn am eglurder pellach ar y sefyllfa. Disgwylir ateb gan Lywodraeth Cymru.

4.3 Llifogydd Bontnewydd

Yn dilyn derbyn adroddiad drafft y mis diwethaf, ysgrifennod y clerch at Ymgynghoriaeth Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am fwy o fanylion, ac yn mynegi pryder am yr argymhellion oedd yn rhai gwan.

Cafwyd ateb gan Ymgynghoriaeth Gwynedd oedd yn nodi nad prif bwrpas yr adroddiad draft oedd cynnig argymhellion, a bod yr adroddiad yn cael ei baratoi yn ol gofynion statudol, er mwyn darganfod pwy o'r grwpiau risg llifogydd sydd yn gyfrifol am beth.

Ymatebodd Cyfoeth Naturiol Cymru drwy gydnabod eu bod yn gyfrifol am yr Afon Gwyrfai a'r amddiffinfeydd llifogydd cysylltiedig – sef wal llifogydd Glanrafon a'r arllwysfeydd cysylltiedig.

Mae bwriad gan Gyfoeth Naturiol Cymru i:-

- Ail bwyntio a selio wal llifogydd glanrafon i wella athreiddedd
- Ymestyn y wal llifogydd ymhellach o fewn caeau chwarae'r ysgol
- Disodli'r gollyngfeydd dwr gydag unedau newydd
- Gwella trawsgludiad o fewn yr Afon Gwyrfai trwy gario gwaith cynnal a rheoli'r graean a choed

Bydd y rhan fwyaf o'r gwaith uchod yn cael ei wneud o fewn rhaglen gwaith arferol Cyfoeth Naturiol Cymru, ond bydd angen cyllid ychwanegol i gwblhau'r gwelliannau eraill, e.e. atgyweirio'r wal ac ail osod y gollyngfeydd dwr a bydd hyn yn debygol o gymryd yn hirach i'w gwblhau.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Cyngor Gwynedd yn parhau i gydweithio gyda Dwr Cymru er mwyn gwella'r sefyllfa ym Montnewydd.

4.4 Swyddfa Treth Porthmadog

Cafodd y Clerc ateb gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Thollau ei Mawrhydi, Cymru, Derek Hughes, yn dilyn ysgrifennu at y Trysorlys yn Llundain. Mae'r llythyr yn nodi bod y trefniadau newydd yn arwain at well effeithlonrwydd a gwasanaeth i'r trethdalwr yng Nghymru, ac yn arbed arian ar yr un pryd. Er bod bwriad i gau swyddfeydd Porthmadog yn 2019/20 bydd gwasanaeth drwy gyfrwng Y Gymraeg yn parhau, ond yng Nghaerdydd.

Cytunwyd fod yr ymateb yn siomedig, a gofynnwyd i'r Clerc gysylltu efo'r Aelodau Seneddol a Chynulliad perthnasol yn rhoi copi o'r ohebiaeth iddynt hwy, (gan gynnwys yr ohebiaeth a dderbyniwyd gan Swyddfa Cymru yn flaenorol), a gofyn iddynt hwythau gefnogi'r ymgyrch i gadw Swyddfa Treth Porthmadog ar agor.

4.5 Archwilwyr Allanol – BDO a'r iaith Gymraeg

Cafwyd ateb gan Swyddfa Archwilio Cymru yn dweud fod proses dendro lawn wedi ei defnyddio wrth ddethol yr Archwiliwr Allanol BDO ar gyfer archwilio cyfrifon Cyngorau Cymuned yng Ngogledd Cymru. Fe ddyfarwnyd y gwaith i BDO fel y cyflenwr a sgoriodd uchaf yn y gwerthusiad o'r holl dendrau a dderbyniwyd.

Fel rhan o'r broses rhag-gymhwyso rhaid oedd i'r cyflenwyr ddarparu tystiolaeth o'u profiad a'u gallu i ddarparu gwasanaethau o fewn amgylchedd ddwyieithog yn ogystal a chwrdd ag anghenion cyrff a archwilir sy'n well ganddynt gyfathrebu yn Y Gymraeg. Mae BDO wedi

bod yn darparu gwasanaeth cyffelyb ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru dros gyfnod o 12 mlynedd.

Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro'r defnydd o Gymraeg fel rhan o broses sicrwydd ansawdd parhaol.

Ysgrifennodd y Clerc at Un Llais Cymru yn ategu'r pryder nad yw'r gwasanaeth a ddarperir gan BDO yn wasanaeth Cymraeg o'r un safon a'r hyn a ddarperir drwy gyfrwng y Saesneg.

Mae un Cyngor Cymuned arall wedi ysgrifennu at Un Llais Cymru yn mynegi pryder cyffelyb. Bydd Un Llais Cymru yn ystyried y mater yn fewnol cyn ymateb ymhellach. Yn ogystal bydd y mater yn cael ei drafod ym Mhwyllgor Mehefin Arfon Dwyfor Un Llais Cymru.

4.6 Gwaith trwsio ffyrdd gwledig

Cysylltodd y Clerc efo Cyngor Gwynedd yn nodi pryder am gyflwr y ffyrdd yn ardal Pen y Bryn, Rhos Bach a Lon Groes.

Ymatebodd Cyngor Gwynedd drwy ddweud fod yr arolygwr ffyrdd wedi nodi problem Lon Groes a bydd gwaith ymchwil i wella'r sefyllfa a rhwystro'r ffordd rhag cwmpo ymhellach yn digwydd yn fuan. Gan fod y ffordd yn gul, bydd angen ei chau i drafnidiaeth tra bydd y gwaith yn cael ei wneud. Bydd y trigolion a effeithir yn cael eu hysbysu ymlaen llaw.

Bydd arolygwr yn archwilio lonydd Pen y Bryn a Rhos Bach ac yn trefnu i unrhyw waith angenrheidiol gael ei wneud. Fodd bynnag gwaith clytio yn unig fydd yn cael ei wneud gan fod y ddwy ffordd yn cael eu heffiethio'n sylweddol gan waith adeiladu ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon.

5. MATERION ARIANNOL

5.1 Cyflog a chostau clerics Mai 2016

£208.18 - £41.60 treth incwm = £166.58 + costau swyddfa £45.00

Cyfanswm Gros £253.18

Cyfanswm Net £211.58

5.2 Costau postio £1.10

5.3 Balans yn y banc 2 Mehefin 2016 £11,303.35 (heb gynnwys taliad £2,810 Y Ganolfan)

5.4 Cadarnhau mantolen 2015/16

Cadarnhawyd mantolen 2015/16 fydd yn cael ei ddanfod at yr Archwiliwr Menwol ym mis Mehefin.

6. Cynllunio a Materion Cyfreithiol Eraill

7. GOHEBIAETH

- Llythyr diolch Ysgol Gynradd Bontnewydd
- Llythyr diolch Hwyl y Bont
- Llythyr diolch Lleu
- Gwahoddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cynhadledd Flynyddol Un Llais Cymru, Gorffennaf 2016, Llandrindod

Derbyniwyd er gwybodaeth.

8. MATERION ERAILL

8.1 Ad-daliad costau llwybrau cyhoeddus

Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Gwynedd yn nodi na fyddant o hyn ymlaen yn ad-dalu Cynghorau Cymuned am waith a wnaethpwyd ganddynt ar lwybrau cyhoeddus. Fe gafodd Gyngor Cymuned Y Bontnewydd ad-daliad o £248.00 yn 2011/12, am waith a wnaethpwyd bryd hynny, ond ni wnaethpwyd unrhyw hawliad wedi hyn.

8.2 Ardaloedd gwledig Gwynedd

O dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), mae Cyngor Gwynedd yn ymgynghori ar rannu'r Sir i wahanol is-gymunedau. Bydd rhwydwaith o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn cael eu sefydlu, gyda'r cyfrifoldeb o roi'r Ddeddf ar waith a sicrhau asesiadau lles ar lefel cymunedol cyn llunio amcanion lles ar gyfer yr ardaloedd. Dyma'r rheswm felly dros yr is-ardaloedd, sef:-

- Bala
- Bangor
- Caernarfon
- Dolgellau
- Ffestiniog
- Llyn
- Porthmadog
- Tywyn

Rhoddir tan 1 Mehefin i ddarparu adborth i Gyngor Gwynedd, ond gan fod yr ohebiaeth ond wedi ei dderbyn ers ychydig ddyddiau cyn 1 Mehefin, penderfynwyd gohirio'r mater am drafodaeth bellach yng nghyfarfod Gorffennaf. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd yn nodi bwriad i ymateb yn ffurfiol wedi cyfarfod Gorffennaf ac yn gofyn am fersiynau electronig o'r mapiau sy'n dangos yr is-ardaloedd.

8.3 Cyfyngiad cyflymder 20 Mya Bontnewydd

Mae'r Asiantaeth priffyrdd wedi ysgrifennu yn gofyn am farn y Cyngor Cymuned ar wneud y gorchymyn cyflymder y tu allan i'r ysgol o 20 MYA, sydd ar hyn o bryd yn gweithredu dan orchymyn dros dro yn un parhaol.

Cytunwyd y dylai'r cyflymder fod yn un parhaol.

8.4 Defnyddio Cae Stanley i chwarae gemau Tim Ieuenctid CPD Bontnewydd ar Ddydd Sul

Nid oes caniatad ar hyn o bryd i ddefnyddio Cae Stanley er mwyn chwarae gemau Tim Ieuenctid CPD Bontnewydd ar Ddydd Sul.

Cytunwyd y dylid rhoi caniatad i Dim Ieuenctid CPD Bontnewydd ddefnyddio Cae Stanley i chwarae Pêl Droed ar Ddydd Sul.

8.5 Llongyfarch Ilwyddiant Ysgol Bontnewydd

Yn dilyn Ilwyddiannau Ysgol Bontnewydd yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar, yn enwedig yn y gystadleuaeth Can Actol a Band Pres, gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at yr ysgol yn eu llongyfarch.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

7 Gorffennaf 2016 am 7 yh Y Ganolfan, Bontnewydd.

